O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 2917 (Cy. 297)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn ei gwneud yn ofynnol llunio rhestrau ardrethu annomestig ar 1 Ebrill 1990 yn y lle cyntaf ac ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn wedi hynny.

At ddibenion llunio rhestr o'r fath mae gwerth ardrethol hereditament annomestig i gael ei benderfynu drwy gyfeirio at y diwrnod y mae'n rhaid llunio'r rhestr neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Gwnaed Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1370 (Cy. 139)) o dan adran 54A(1) o Ddeddf 1988. Roedd yn gohirio'r dyddiad y dylai'r rhestrau ardrethu annomestig newydd gael eu llunio o 1 Ebrill 2015 i 1 Ebrill 2017.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2015 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerth ardrethol hereditament annomestig at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2017.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 2917 (Cy.297)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Tachwedd 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Tachwedd 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dyddiad Prisio

**2.** 1 Ebrill 2015 yw'r diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 (Ardrethu Annomestig: Prisio) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'i trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

chanolog sydd i'w llunio ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2017.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007(**1**) wedi ei ddirymu.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru
5 Tachwedd 2014

(**1**) O.S. 2007/3153 (Cy. 269).